HAY FESTIVAL

imagine the world

Datganiad Newyddion:

Penwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli yn dathlu 18 oed â rhaglen estynedig o ddigwyddiadau mewn lleoliad newydd

Heddiw, cyhoeddodd Gŵyl y Gelli gynlluniau ar gyfer y Penwythnos Gaeafol mwyaf erioed, rhwng 23 a 26 Tachwedd 2017, sy'n cynnwys lleoliad 400-sedd newydd a rhaglen estynedig o ddigwyddiadau.

Yn y Gelli Gandryll, Cymru, yng nghysgod y Mynyddoedd Duon ac ar lannau Afon Gwy, mae'r ŵyl yn cynnig pedwar diwrnod o hwyl i'r teulu cyfan a hynny mewn tref hardd yn llawn siopau llyfrau, caffis a marchnadoedd annibynnol, dafliad carreg o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Yn gyfuniad o drafodaethau llenyddol, perfformiadau grymus a gweithdai teuluol, ac ar y cyd â chyfleusterau siopa tymhorol y dref a chyfleodd i archwilio'r amgylchfyd naturiol enwog yn eu holl ysblander hydrefol, mae'r ŵyl yn ddihangfa aeafol berffaith.

A'r ŵyl yn cael ei chynnal am y 18fed tro, rhaglen eleni o sgyrsiau (a gyhoeddir ar 16 Hydref) fydd y mwyaf uchelgeisiol hyd yn hyn. Bydd yn tynnu sylw at beth o'r ffuglen, yr ysgrifennu ffeithiol a'r farddoniaeth newydd orau yn y byd. Bydd lleoliad newydd hefyd yn dyblu cynhwysiant yr ŵyl ac yn trawsnewid canol y dref yn faes chwarae i syniadau. Bydd digwyddiadau hefyd yn dechrau ddiwrnod yn gynharach nag arfer eleni - mae'r rhaglen o sgyrsiau a pherfformiadau yn cychwyn ar ddydd Iau 23 Tachwedd.

Cafodd y gweithdai i bobl ifanc eu hysbrydoli gan brosiect #HAYTREES yr ŵyl, ac fe fydd yna gyfle i wneud printiau coed ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft yn ogystal â digwyddiadau cysylltiedig i ysgolion. Bydd yna lu o sgyrsiau diddorol i bobl o bob oed yng nghwmni'r awduron gorau i bobl ifanc.

Bydd sgwâr marchnad hanesyddol ac atmosfferig y dref yn ganolbwynt i'r ŵyl:

Ar ddydd Gwener 24 Tachwedd, bydd goleuadau Nadolig y Gelli yn cael eu cynnau i groesawu ysbryd a hwyl y Nadolig, a hynny i gyfeiliant carolau, darlleniadau ac adloniant hwyrol.

Ar ddydd Sadwrn 25 Tachwedd, bydd Gŵyl Fwyd y Gelli yn dathlu coginio gaeafol, a bydd mwy na 50 o stondinau yn arddangos y bwydydd sawrus a melys gorau gan gynhyrchwyr lleol.

Ar ddydd Sul 26 Tachwedd, bydd Hay Does Vintage yn trawsnewid y sgwâr yn farchnad awyr agored. Bydd mwy na 50 o fasnachwyr 'vintage' a retro yn cynnig casgliad amrywiol o eitemau - dillad, tecstilau a gemwaith, dodrefn, trugareddau ac offer cegin.

Yn ôl Peter Florence, Cyfarwyddwr Gŵyl y Gelli: "Mae Penwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli yn gyfle i gael profiad amheuthun o'r Gelli. Bydd yna awduron gwych, meddylwyr ysbrydoledig a ffair yn llawn crefftau, bwydydd a thrugareddau lleol, a'r cyfan wedi'i lapio mewn goleuadau Nadoligaidd a disgleirdeb gaeafol. Ymunwch â ni."

Dywedodd Clare Fry, Cadeirydd Siambr Fasnach Y Gelli Gandryll a'r Cylch: "Mae nifer o bobl sy'n ymweld â'r Gelli yn y gwanwyn a'r haf yn gofyn beth r'yn ni'n ei wneud yn ystod y gaeaf - maen nhw'n meddwl efallai ein bod ni'n cau'r drysau'n dynn ac yn swatio o flaen y tân. I'r gwrthwyneb! Mae'r Gelli yn dref farchnad fywiog – adeg y Nadolig yn arbennig! Mae'r lle bach hudolus hwn yn hynod ffodus o allu cyflwyno ffrwydrad o weithgarwch tymhorol a diwylliannol gan Ŵyl y Gelli - heb anghofio'r marchnadoedd a'r digwyddiadau

Nadoligaidd sy'n cynnwys y tyfwyr, y cynhyrchwyr, y manwerthwyr a'r artistiaid lleol gorau. Ymunwch â ni a dewch i aros am gyfnod - mae yma ddigonedd o westai, tafarnau, bwytai a bariau ac os byddwch chi eisiau clirio'r pen ar ôl noson fawr, gallwch fynd i gerdded yn eira'r Mynyddoedd Duon neu feicio trwy Ddyffryn Gwy."

Cyhoeddir rhaglen lawn yr ŵyl ar ddydd Llun 16 Hydref, pan fydd tocynnau ar gael i Ffrindiau Gŵyl y Gelli. Bydd tocynnau ar gael i'r cyhoedd o ddydd Iau 19 Hydref ymlaen.

Ar ôl 30ain Gŵyl y Gelli yng Nghymru (25 Mai - 5 Mehefin), a gwyliau'r Gelli yn Querétaro, Mecsico (7 - 10 Medi), Segovia, Sbaen (16-24 Medi), Aarhus, Denmarc (26-29 Hydref) ac Arequipa, Periw (9 - 12 Tachwedd), Penwythnos y Gaeaf fydd digwyddiad olaf Gŵyl y Gelli yn 2017.

Mae'r prosiect wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth sy'n anelu at annog gwaith partneriaeth a syniadau arloesol a fydd yn cael mwy o effaith a denu mwy o ymwelwyr.

Fe gewch chi'r newyddion diweddaraf am Ŵyl y Gelli yn y cylchlythyr neu ar y cyfryngau cymdeithasol:
Twitter: @hayfestival / @hayfestival_esp
Facebook: hayfestival / hayfestivalimaginaelmundo
Instagram: @hayfestival

www.hayfestival.org/winterweekend
#HayWinterWeekend

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

I gael DELWEDDAU, GWYBODAETH BELLACH neu i drefnu CYFWELIADAU, cysylltwch â chyfarwyddwr cyhoeddusrwydd Gŵyl y Gelli, Christopher Bone – christopher@hayfestival.org neu 07506 522540.

Ynglŷn â Gŵyl y Gelli
www.hayfestival.org

Mae Gŵyl y Gelli yn dod â llenorion a darllenwyr at ei gilydd i rannu straeon a syniadau mewn digwyddiadau cynaliadwy ar bum cyfandir. Mae'r gwyliau'n ysbrydoli, yn archwilio ac yn difyrru, ac yn gwahodd cyfranogwyr i ddychmygu'r byd fel y mae ac fel y gallai fod.

Mae enillwyr Gwobr Nobel a nofelwyr, gwyddonwyr a gwleidyddion, haneswyr a cherddorion yn siarad â chynulleidfaoedd mewn proses ddeinamig o gyfnewid syniadau. Mae sgwrs fyd-eang yr ŵyl yn rhannu'r syniadau diweddaraf am y celfyddydau a'r gwyddorau gyda chynulleidfaoedd chwilfrydig mewn digwyddiadau byw, mewn print ac ar-lein. Mae Gŵyl y Gelli hefyd yn trefnu rhaglenni eang o waith addysgol sy'n cefnogi awduron y dyfodol a chynulleidfaoedd diwylliedig a brwdfrydig o bob oed.

Yn 1987, cafodd y syniad am ŵyl ei ffurfio mewn cegin yn Y Gelli. Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, mae'r cyfuniad unigryw o sgyrsiau ac adloniant i bobl o bob oed wedi teithio i 30 o leoliadau, o dref hanesyddol Cartagena yn Colombia i leoliadau dinesig ym Mheriw, Mecsico, Sbaen a Denmarc. Mae'r sefydliad bellach yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang o gannoedd o filoedd bob blwyddyn ac yn parhau i dyfu ac arloesi, gan greu partneriaethau a mentrau gyda rhai o'r cyrff celfyddydol a chyfryngol mwyaf blaenllaw, gan gynnwys y BBC, Adran Addysg Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, CCC, y Cyngor Prydeinig, Oxfam, TATA, Gŵyl Cyfeillion y Gelli, Baillie Gifford, Ynni Da, Coed Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

HAY FESTIVAL

imagine the world

Yr awdur a'r actor enwog Stephen Fry yw Llywydd y sefydliad; Peter Florence yw'r Cyfarwyddwr; ac mae Caroline Michel, Prif Swyddog Gweithredol asiantaeth lenyddol a thalent Peters Fraser & Dunlop yn Gadeirydd Bwrdd yr Ŵyl.

Dyddiadau Gŵyl y Gelli yn 2017/18 ...

- Gŵyl y Gelli yn Querétaro, Mecsico (7-10 Medi 2017)
- Gŵyl y Gelli yn Segovia, Sbaen (16-24 Medi 2017)
- Gŵyl Llenyddiaeth Plant Ewropeaidd y Gelli yn Aarhus, Denmarc (26-29 Hyd 2017)
- Gŵyl y Gelli yn Arequipa, Periw (9-12 Tach 2017)
- Penwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli, Cymru (23 - 26 Tach 2017)
- Gŵyl y Gelli yn Cartagena de Indias, Colombia (25-28 Ionawr 2018)
- Gŵyl y Gelli, Cymru (24 Mai - 3 Mehefin 2018)

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**